# Caplaniaeth LGBTQIA+ ar waith yn Esgobaeth Llanelwy




***Rydym wedi cael ein gwneud ar gyfer daioni. Rydym wedi cael ein gwneud ar gyfer cariad. Rydym wedi cael ein gwneud ar gyfer cyfeillgarwch. Rydym wedi cael ein gwneud ar gyfer undod. Rydym wedi cael ein gwneud ar gyfer yr holl bethau hyfryd sy'n hysbys i chi ac i mi. Rydym wedi cael ein gwneud i ddweud wrth y byd nad oes unrhyw un y tu allan. Mae croeso i bawb: du, gwyn, coch, melyn, cyfoethog, tlawd, addysgedig, heb addysg, gwryw, benyw, hoyw, heterorywiol, pawb, pawb, pawb. Rydym i gyd yn perthyn i'r teulu hwn, y teulu dynol hwn, teulu Duw.***

***Archesgob Desmond Tutu***

Lansiwyd y Gaplaniaeth LGBTQIA+ gan yr Eglwys yng Nghymru i:

- gyfleu'r neges, waeth pwy ydym ni, mae Duw yn ein caru ni, yn ein croesawu ni ac eisiau'r gorau i ni
- darparu lle diogel lle gallwn addoli, gweddïo, rhannu ein hanesion a mwynhau amser gyda'n gilydd

Yn yr amgylchedd hwn, heb unrhyw un yn barnu, gallwn ffynnu a thyfu a gwybod fod Iesu wedi dod i ddod â bywyd yn ei holl gyflawnder.

## Cyfarfodydd misol

Prif ddiben ein Cymun Bwrdd Agored fydd addoli a dysgu am Dduw ac am ein gilydd.

Bydd Bwrdd agored misol yn:

- **Eglwys San Silyn, Wrecsam**
- **Eglwys Sant Pedr, Treffynnon**
- **Eglwys Sant Grwst. Llanrwst**

Ceir manylion a dyddiadau'r cyfarfodydd yn:

http://stasaph.churchinwales.org.uk/life/steering-groups/engaging/lgbt-chaplaincy/

Mewn amser gallwn ddatblygu timau gweinidogaeth i gefnogi ein haddoliad a meddwl am ffyrdd arloesol o weinyddu'r Cymun.

Bydd y Caplan, y Parchedig Sarah Hildreth-Osborn, ar gael i unrhyw un wrth i'r angen godi.

## Astudiaethau Beiblaidd / Diwrnodau Tawel / Encilion

Mae'r rhain yn cael eu trefnu'n barod yn lleol ac ymhellach draw, felly fe fyddan nhw'n cael eu hysbysebu o fewn y gaplaniaeth. Mewn amser, gallwn drefnu ein digwyddiadau ein hunain, hefyd.

## Digwyddiadau

Bydd digwyddiadau cymdeithasol hefyd ar y calendr er mwyn i ni allu dod i adnabod ein gilydd, cefnogi ein gilydd a chynnig cymorth i eraill.

***Os ydych chi'n rhan o'r gymuned LGBTQIA+ a bod gennych chi ddiddordeb yn y ffydd Gristnogol a'i chymuned, mae'r Gaplaniaeth ar eich cyfer chi!***

***Os ydych chi'n credu mewn eglwys gynhwysol, mae'r Gaplaniaeth ar eich cyfer chi!***

Os hoffech chi gymryd rhan, dewch draw i ddigwyddiad BWRDD AGORED neu cysylltwch â'r:

Parchedig Sarah Hildreth-Osborn
Y Rheithordy,
Llanddoged Road,
Llanrwst,
Conwy. LL26 0DW
01492 640032
revsarah3005@btinternet.com

The Church in Wales

# LGBTQIA + Chaplaincy working in the Diocese of St Asaph




***We are made for goodness. We are made for love. We are made for friendliness. We are made for togetherness. We are made for all of the beautiful things that you and I know. We are made to tell the world that there are no outsiders. All are welcome: black, white, red, yellow, rich, poor, educated, not educated, male, female, gay, straight, all, all, all. We all belong to this family, this human family, God's family.***

***Archbishop Desmond Tutu***

The LGBTQIA+ Chaplaincy was launched by the Church in Wales to:

* carry the message that no matter who we are, God loves us, welcomes us and wants the best for us
* provide a safe space were we can worship, pray, share our stories and enjoy time together

In this environment, free of any judgement, we can flourish and grow and know that Jesus came to bring life in all its fullness.

## Monthly meetings

The primary purpose of our Open Table Eucharist's will be to worship and learn from God and one another.

There will be a monthly Open Table at:

* **St. Giles, Wrexham**
* **St. Peter's, Holywell**
* **St. Grwst. Llanrwst**

OPEN TABLE
Come as you are

Details and meeting dates at:
http://stasaph.churchinwales.org.uk/life/steering-groups/engaging/lgbt-chaplaincy/

In time we can develop ministry teams to support our worship and come up with innovative ways of celebrating the Eucharist .

The Chaplain, Revd Sarah Hildreth-Osborn, will be available to anyone as need arises.

## Bible studies / Quiet Days / Retreats

These are already organised locally and further afield so will be advertised within the chaplaincy. In time, we can organise events of our own too

## Socials

Get togethers and social events will also be on the calendar so we can get to know one another, mutually support one another and offer support to others.

***If you are part of the LGBTQIA+ community and are interested in Christian faith and community, the Chaplaincy is for you!***

***If you believe in an inclusive Church, the Chaplaincy is for you!***

To get involved please come along to OPEN TABLE or contact:

Revd Sarah Hildreth-Osborn
The Rectory,
Llanddoged Road,
Llanrwst.,
Conwy. LL26 0DW
01492 640032
revsarah3005@btinternet.com

The Church in Wales